O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 96

Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2026

Gwnaed	*25 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*30 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 96

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Amendment of Schedule 6) Order 2026

Made	*25 March 2026*
Coming into force	*30 March 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 96

Y GYMRAEG

Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau").

Mae adran 25 o'r Mesur yn darparu bod rhaid i berson gydymffurfio â safon ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir, a thra bodlonir, chwe amod. Amod 1 yw bod y person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i'r person. Nid yw'r amodau eraill yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mae adran 33 o'r Mesur yn darparu bod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw'r person (a) yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8. Mae person yn dod o fewn Atodlen 5 os yw'r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 5. Mae person yn dod o fewn Atodlen 6 os yw'r person (a) wedi ei bennu yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 6 ("y tabl yn Atodlen 6"), neu (b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y golofn honno. Nid yw Atodlenni 7 ac 8 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mae adran 36 yn darparu bod safon yn gymwysadwy i berson os yw'r safon yn perthyn i ddosbarth o safonau a bennir yng ngholofn 2 o gofnod y person yn y tabl yn Atodlen 6. Mae pob un o'r canlynol yn ddosbarth o safonau—

(i) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(ii) safonau llunio polisi;

(iii) safonau gweithredu;

(iv) safonau hybu;

(v) safonau cadw cofnodion.

Mae adran 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 1 yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5, neu at gategori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5.

Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol—

(i) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(ii) safonau llunio polisi;

(iii) safonau gweithredu;

(iv) safonau cadw cofnodion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur drwy fewnosod Cartrefi Cymunedol Cymru yn Atodlen 6 a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gysylltiedig â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hynny a'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol sy'n ymdrin â'r Rheoliadau hynny a'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 96

Y GYMRAEG

Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2026

Gwnaed	*25 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*30 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 35(1) a (2) a 38(1) a (2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mawrth 2026.

Diwygio Atodlen 6

2. Yn y tabl yn Atodlen 6(**2**) (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, o dan y pennawd "Cyffredinol", ar ôl y cofnod ar gyfer Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig mewnosoder—

"Cartrefi Cymunedol Cymru ("*Community Housing Cymru*")	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion"

(**1**) 2011 mccc 1.
(**2**) Mae diwygiadau i Atodlen 6 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mark Drakeford
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
25 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 96

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Amendment of Schedule 6) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1) ("the Measure") makes provision for the specification of standards of conduct in relation to the Welsh language ("standards").

Section 25 of the Measure provides that a person must comply with a standard of conduct specified by the Welsh Ministers if, and for as long as, six conditions are met. Condition 1 is that the person is liable to be required to comply with standards. Condition 2 is that the standard is potentially applicable to the person. The other conditions are not relevant to this Order.

Section 33 of the Measure provides that a person is liable to be required to comply with standards if the person is (a) within Schedule 5 and also within Schedule 6, or (b) within Schedule 7 and also within Schedule 8. A person is within Schedule 5 if the person falls within a category of persons specified in column 2 of the table in Schedule 5. A person is within Schedule 6 if the person (a) is specified in column 1 of the table in Schedule 6 ("the Schedule 6 table"), or (b) is within a category of persons specified in that column. Schedules 7 and 8 are not relevant to this Order.

Section 36 provides that a standard is potentially applicable to a person if the standard belongs to a class of standard that is specified in column 2 of the person's entry in the Schedule 6 table. Each of the following is a class of standard—

(i) service delivery standards;

(ii) policy making standards;

(iii) operational standards;

(iv) promotion standards;

(v) record keeping standards.

Section 35 enables the Welsh Ministers, by order, to amend the Schedule 6 table so that column 1 includes a reference to a person who falls within one or more of the Schedule 5 categories or a category of persons, all of whom fall within one or more of the Schedule 5 categories.

Section 38 enables the Welsh Ministers, by order, to amend the Schedule 6 table so that column 2 of an entry includes a reference to one or more of the following—

(i) service delivery standards;

(ii) policy making standards;

(iii) operational standards;

(iv) record keeping standards.

This Order amends Schedule 6 to the Measure by inserting Community Housing Cymru into Schedule 6 and specifying classes of standard in column 2.

This Order is connected to the Welsh Language Standards (No. 10) Regulations 2026. The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to those Regulations and this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared dealing with those Regulations and this Order. A copy can be obtained from the Cymraeg 2050 Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 96

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Amendment of Schedule 6) Order 2026

Made	*25 March 2026*
Coming into force	*30 March 2026*

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred on them by sections 35(1) and (2) and 38(1) and (2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011(**1**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 150(2)(f) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Amendment of Schedule 6) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 30 March 2026.

Amendment of Schedule 6

2. In the table in Schedule 6(**2**) (public bodies etc: standards) to the Welsh Language (Wales) Measure 2011, under the "General" heading, after the entry for the Community Development Foundation insert—

"Community Housing Cymru ("*Cartrefi Cymunedol Cymru*")	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards"

(**1**) 2011 nawm 1.
(**2**) There are amendments to Schedule 6 that are not relevant to this Order.

Mark Drakeford
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
25 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839867-0

9 780348 398670